



**Yn bresennol:**

David B Jones (Cadeirydd), Philip Blaker, Isabel Nisbet, Angela Maguire-Lewis, Ellen Donovan,  
David Jones, Caroline Burt, Robert Lloyd Griffiths, Claire Morgan, Arun Midha,  
Jayne Woods, Anne Marie Duffy.

**Yn Bresennol:**

Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS), Joanne Nicholas (JN), Cassy Taylor (CT) (ar y ffôn),  
Emyr George (EG) – eitem 6, Oliver Stacy (OS) – eitem 6, Tom Anderson (TA) – eitem 9,  
Vasile Rotaru (VR) – eitem 9, Liz Frizi (LF) – eitem 10, Helen Murray (HM) – eitem 13,  
Jo Valentine (JV) – Llywodraeth Cymru.

**Ymddiheuriadau:**

Dim.

**1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datgan Buddiant, Papurau i'w Nodi**

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- 1.2. Gofynnwyd am ddatgan buddiant. Soniodd David Jones (DJ) am swyddogaeth bosibl gyda Swyddfa Archwilio Cymru mewn cysylltiad â chyngor am hysbysebu ar ddiogelwch seiber. Soniodd Robert Lloyd Griffiths am ei swyddogaeth ar Banel Penodi Aelodau'r Bwrdd ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru CCAUC).

**2. Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 26 Medi 2019 a Materion yn Codi**

- 2.1. Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2019 yn gofnod cywir o'r cyfarfod, gyda mân newidiadau. Byddai'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru ar ôl eu cyfieithu.
- 2.2. Cafodd y Bwrdd ddiweddariad am y camau i'w cymryd yn y cofnodion, a'r cyfan wedi eu cyflawni.
- 2.3. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr aelodau unrhyw faterion y dymunent eu trafod o'r papurau gwybodaeth.
- 2.4. Gofynnodd y Bwrdd am i'r canlyniadau PISA gael eu trafod yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr.

- 2.5. Nododd y Bwrdd fod angen ail-lunio papur QWB24.20 – gwybodaeth cyfathrebu yn yr adran yn cyfeirio at leithoedd Tramor Modern.
- 2.6. Cyfeiriodd y Bwrdd at bapur QWB24.21 - cofnodion y Pwyllgor Rheoleiddio a gofynnodd a fyddai'r Bwrdd yn cymeradwyo newidiadau yn yr Amodau Safonol ar Gydnabod. Cadarnhawyd bod hyn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Rheoleiddio.
- 2.7. Cyfeiriodd y Bwrdd at bapur QWB24.22 - cofnodion y Pwyllgor Adnoddau a gofynnodd a oedd adnoddau AD yn dal yn ofid. Dywedwyd bod tri aelod staff nawr yn eu swydd ac y byddai'r capasiti'n cael ei fonitro'n ofalus.
- 2.8. Sylwodd y Bwrdd nad oedd y cofnodion pwyllgor a ddosbarthwyd fel rhan o'r papurau gwybodaeth yn dod o'r cyfarfod mwyaf diweddar. Cydnabuwyd bod hyn yn digwydd am fod cofnodion yn cael eu darparu i'r Bwrdd ar ôl eu cymeradwyo gan y Pwyllgor perthnasol. Trafodwyd hyn gan y Bwrdd, a chytunwyd yn y dyfodol y byddai cofnodion drafft yn cael eu darparu. Cytunwyd hefyd y byddai digon o amser yn cael ei ganiatáu ar yr agenda i Gadeirydd pob Pwyllgor roi adroddiad i'r Bwrdd.

**GWEITHREDU 01 – Canlyniadau PISA i gael eu hychwanegu at yr edrych ymlaen ar gyfer Ionawr 2020**

**GWEITHREDU 02 – Cofnodion Drafft Pwyllgorau i gael eu cylchredeg i'r Bwrdd fel papurau gwybodaeth.**

#### Materion yn Codi

- 2.9. Rhoddodd PB ddiweddariad am Arolwg Pobl 2019. Dywedwyd bod y sgôr ymgysylltu wedi gwella o 72% yn 2018 i 76%, sef yr un fath a sgôr 2017. Roedd y gyfradd gwblhau wedi gostwng o 91% yn 2018 i 81%. Roedd rhywfaint o hyn i'w briodoli i absenoldeb staff a chyfnod mamolaeth. Dywedwyd wrth y Bwrdd y byddai'r canlyniadau llawn ar gael iddynt yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr.
- 2.10. Cadarnhaodd PB fod llythyr wedi ei anfon at Lywodraeth Cymru ynglŷn â goblygiadau'r dyfarniad cyflog yn ddiweddar.
- 2.11. Cadarnhaodd PB fod y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth wedi ei chymeradwyo gan y Gweinidog a'i chyhoeddi

#### **Crynodeb:**

- i. Cymeradwywyd y cofnodion gan y Bwrdd.
- ii. Nododd y Bwrdd fod yr holl gamau wedi eu cwblhau.

### **3. Diweddariad y Cadeirydd**

- 3.1. Rhoddodd y Cadeirydd sylwadau agoriadol. Cydnabu'r Cadeirydd waith da Cymwysterau Cymru a'r cyfraniad a wnaed gan Ann Evans (AE).

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cael cyfarfod gyda Chyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog Addysg, a dywedodd fod y ddau gyfarfod wedi adlewyrchu'n gadarnhaol ar Cymwysterau Cymru.

- 3.2. Rhoddodd y Cadeirydd ei farn am y ffordd roedd yn gweld y 'cyfnod nesaf' yn natblygiad y sefydliad. Soniodd am yr angen i edrych eto ar Arolwg gwreiddiol Llywodraeth Cymru o Gymwysterau ac ystyried beth oedd wedi ei ddarparu a beth oedd wedi newid. Anogodd y sefydliad i barhau i ddefnyddio'i bwerau i ddiwygio, a dywedodd fod gwaith i gefnogi diwygio'r cwricwlwm yn dasg allweddol, ond bod diwygio cymwysterau galwedigaethol hefyd yn bwysig. Soniodd am ddatblygiad y sefydliad cyllido trydyddol newydd sy'n cael ei greu ar gyfer y sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, yr angen i'r sefydliad gael agwedd gadarn at yr iaith Gymraeg ac i gwmpasu'r cyfleoedd sy'n dod yn sgil technoleg ddigidol. Gan nodi adborth aelodau'r Bwrdd yn arolwg diweddar y Bwrdd, anogodd yr aelodau i fynd ati i herio a chefnogi'r sefydliad yn y gwaith o ailedrych ar y strategaeth drefniadaeth am y flwyddyn i ddod. Trafodwyd y materion gan aelodau'r Bwrdd, a nodwyd ffactorau eraill a fyddai'n cael eu hystyried mewn arolwg o'r strategaeth.
- 3.3. Dywedodd y Bwrdd y byddai'n hoffi cael rhagor o wybodaeth am y corff trydyddol newydd, a nodwyd y dylai Cymwysterau Cymru ymwneud yn weithgar â'r corff. Dywedodd AS ei bod wedi cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn paratoi'r ddeddfwriaeth, ac roedd cyfarfod pellach i gael ei drefnu'n gynnar yn 2020. Cydnabuwyd bod diweddariad o Ddeddf Cymwysterau Cymru hefyd yn fuddiol.
- 3.4. Diolchodd y Bwrdd i'r Cadeirydd am yr adroddiad a nodwyd y diweddariad.

**GWEITHREDU 03 - Y Bwrdd i gael rhagor o wybodaeth am y corff trydyddol newydd yn y sector AHO**

**GWEITHREDU 04 – Nodyn atgoffa am Ddeddf Cymwysterau Cymru i gael ei roi i Fwrdd Cymwysterau Cymru**

#### **Crynodeb:**

- i. Nododd y Bwrdd y diweddariad gan y Cadeirydd.

#### **4. Adroddiad y Prif Weithredwr**

- 4.1. Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr gan Philip Blaker (PB) yn dweud ei fod yn cynnwys eitemau nad oeddent i'w gweld rywle arall ar agenda'r Bwrdd.
- 4.2. *leithoedd Tramor Modern TGAU* – Dywedodd PB wrth y Bwrdd fod nifer yr ymgeiswyr wedi gostwng mewn cymwysterau ieithoedd tramor modern yn y blynyddoedd diwethaf, ac yn ystod yr haf roedd y cyfryngau (yn enwedig yn Lloegr) wedi sôn am bryderon fod y cymwysterau'n rhy galed, a chredir bod hyn yn cyfrannu at y lleihad yn nifer y ceisiadau.

Dyweddodd PB wrth y Bwrdd fod Cymwysterau Cymru wedi ymateb i hyn a bod adborth a thystiolaeth wedi eu crynhoi - roedd pryder fod rhai agweddau ar y cymwysterau newydd, megis faint o eirfa roedd angen ei dysgu, yn gallu bod yn rhy galed a bod cyfle i ganolbwyntio mwy ar ddatblygu sgiliau iaith. Roedd CBAC wedi cael cais i wneud arolwg o'r manylion a disgwyliid y byddai hynny'n cael ei wneud yn y gwanwyn 2020. Roedd yr Adran Addysg yn Lloegr (DFE) hefyd yn gwneud arolwg o'r cymwysterau leithoedd Tramor Modern yn Lloegr.

- 4.3. Trafodwyd hyn yn hir gan y Bwrdd, anodwyd yr agwedd yn strategaeth Llywodraeth Cymru, Global Futures, o'i gymharu â'r agwedd yn y cwricwlwm newydd. Cytunwyd y byddid yn ymchwilio ymhellach i swyddogaeth Cymwysterau Cymru yn y maes hwn fel rhan o'r trafodaethau strategaeth ehangach.
- 4.4. *Iaith Saesneg TGAU* – Dywedodd PB wrth y Bwrdd nad oedd yr un lefel o bryder wedi bod â'r haf y llynedd, pan oedd ffiniau'r graddau dan amheuaeth. Fodd bynnag, roedd lleihad o 4% yn y cyrhaeddiad. Roedd Cymwysterau Cymru'n edrych ar y cwestiwn a oedd hyn mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig â gweithrediad y cymhwyster. Gofynnodd y Bwrdd a oedd yr un tueddiadau i'w gweld yn Lloegr. Dywedwyd bod canlyniadau yn Lloegr yn fwy sefydlog, yn rhannol oherwydd patrymau ymgeisio mwy cyson.
- 4.5. *Arolwg Rhent* - Atgoffwyd y Bwrdd gan PB fod gan Cymwysterau Cymru brydles 10 mlynedd ar yr adeilad a bod yr arolwg rhent cyntaf yn ddyledus ym mis Mai 2020. Dywedodd PB y gallai fod gan y landlord ddiddordeb mewn trafod ymestyn y brydles. Dywedodd PB wrth y Bwrdd y byddai dewisiadau'n cael eu harchwilio, ac os oedd mantais mewn ymestyn y brydles byddai hynny'n cael ei drafod gyda'r Bwrdd. Byddai angen i unrhyw estyniad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.
- 1.1. *Cyflog ar sail Rhyw* - Dywedodd PB ers sefydlu Cymwysterau Cymru fod y gyflog ganolrif i ddynion a merched ar gyfer pob band cyflog wedi ei chyhoeddi yn y Cyfrifon. Fodd bynnag, sylweddolwyd yn ddiweddar y dylid cyhoeddi un gyfradd cyflog cyfartaledd ar gyfer dynion a merched yn y sefydliad. Roedd hyn wedi ei gyfrif ar 31 Mawrth 2019 gan ddangos bwlch cyflog o 8.5%. Esboniwyd bod hyn yn cael ei benderfynu gan ryw y Prif Weithredwr/Weithredwraig a nifer y merched mewn swyddi gweinyddu band 1. Roedd y Bwrdd yn cydnabod y rhesymeg dros y bwlch, ond atgoffodd y Weithrediaeth na allai'r Prif Weithredwr a band 1 gael eu heithrio o'r ffigurau.
- 4.6. *Technoleg mewn asesiad* – Darparodd PB ddiweddariad am ddau ddarn o waith ymchwil a oedd wedi eu comisiynu gan Cymwysterau Cymru, yn ogystal â chyflwyniad gan Lywodraeth Cymru am y camau roeddent yn eu cymryd i annog gwelliant yn seilwaith ysgolion. Amlinellodd PB fod Cymwysterau Cymru'n ystyried sefydlu gweithgor i drafod pa gamau ymarferol y gellir eu cymryd i annog mwy o weithredu o fewn y gyfundrefn addysg, ac ymgysylltu â fforwm rheoleiddwyr ar y cyd ar arloesi digidol.

- 4.7. *Iechyd a Gofal Cymdeithasol* – Dywedodd PB fod cynnydd wedi bod gyda'r cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Roedd y cymwysterau ar gyfer Lefel 3 ar gael, ond roedd problemau'n parhau gyda'r defnyddiau asesu sampl. Cyfeiriodd y Bwrdd at y cymwysterau lefel 4 a gofynnwyd a oedd y geiriad Saesneg 'lighter touch approach' yn derminoleg gywir. Esboniodd PB mai'r ystyr oedd y byddai lefel yr adnoddau ar gyfer gwaith cymeradwyo yn wahanol oherwydd bod cyfran helaeth o'r asesiad yn waith portffolio a'r cynnwys yn cael ei bennu gan Ofal Cymdeithasol Cymru.
- 4.8. *Cymdeithas yr Iaith* – Dywedodd PB wrth y Bwrdd fod Cymdeithas yr Iaith wedi ysgrifennu at Cymwysterau Cymru yn mynegi pryder am yr agwedd at ddiwygio Cymraeg Ail Iaith TGAU a'r dull a fwriedid ar gyfer diwygiadau yn y dyfodol. Mae Cymdeithas yr Iaith am weld dim ond un cymhwyster TGAU yn y Gymraeg a hwnnw'n cael ei gyflwyno mor fuan â phosibl. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd fod Llywodraeth Cymru yn gwybod am y mater ac y byddai ef yn cwrdd â Chomisiynydd y Gymraeg yn fuan.

### **Crynodeb:**

- i. Nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Weithredwr a diolchwyd iddo am ei ddiweddariad.

## **5. Datblygu strategaeth**

- 5.1. Cyflwynwyd y papur gan PB. Atgoffodd y Bwrdd am eu cyfrifoldeb wrth ddatblygu na chymeradwyo strategaeth, fel sydd wedi'i amlinellu yn y Cynllun Dirprwyo. Dywedodd PB wrth y Bwrdd fod disgwyl i'r cynlluniau strategol Cymwysterau Galwedigaethol (CG) A Chymwysterau Cyffredinol (CC) cyfredol bara am dair i bum mlynedd. Felly roeddent nawr yn nesáu at gyfnod pan fyddai arolwg yn ddyledus, a byddai nodau strategol clir yn galluogi blaenoriaethu adnoddau. Gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried nifer o gwestiynau mewn cysylltiad â sut orau i fynegi'r strategaeth, gwerth gweledigaeth a'r lefel ymwneud a ddymunai'r Bwrdd.
- 5.2. Mynegodd y Bwrdd ei ddymuniad i edrych eto ar y cynlluniau strategol cyfredol a chynigiwyd y sylwadau sy'n dilyn:
- Dylid cadw hyn yn syml. Mae dau Brif Nod ac wyth Mater eisoes yn bodoli ac felly gallai nifer o nodau beri dryswch a dylid eu hosgoi.
  - Nid oedd angen gweledigaeth newydd o reidrwydd. Dylai'r Strategaeth ganolbwyntio ar flaenoriaethau a bod yn ymarferol, nid yn ddelfrydyddol.
  - Dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r amseru. Gallai gymryd 12-18 mis i'w ddatblygu, ac er nad oedd dim brys dylid cynnal y momentwm.
  - Roedd angen am arolwg trylwyr o'r cynlluniau strategol presennol a gofyn beth roeddent yn ceisio'i gyflawni a beth oedd wedi ei gyflawni.
  - Dylid ystyried y cyfnod ar gyfer y strategaeth. A ddylai fod am gyfnod hir, e.e. 2035, neu gyfnod canolig? Roedd angen edrych ar y gorwel.
  - Roedd yn bwysig deall beth oedd yn digwydd ledled y byd ac ystyried swyddogaeth technoleg.

- Roedd angen ystyried swyddogaeth Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr, a hefyd archwilio'r cyfleoedd sy'n bod ar gyfer arloesi.
- Dylai staff Cymwysterau Cymru gael eu cynnwys.
- Roedd angen trafod ymhellach y broses ar gyfer ffurfio strategaeth. Awgrymwyd y byddai trafodaeth ar wahân gan y Bwrdd yn y Flwyddyn Newydd yn fuddiol.

5.3. Diolchodd y Cadeirydd i'r Bwrdd am yr adborth ac awgrymodd fynd â hwn ymlaen fel trafodaeth ar wahân gan y Bwrdd ddechrau'r flwyddyn nesaf.

**GWEITHREDU 05 - y Cadeirydd / SIN i drefnu cyfarfod o'r Bwrdd yn y Flwyddyn Newydd i fynd ymlaen â datblygiad y strategaeth.**

### **Crynodeb:**

- Ystyriodd y Bwrdd yr angen am ddatblygu strategaeth newydd, a chymeradwyodd hynny. Darparodd sylwadau a rhoddodd arweiniad cynnar ar y dull o ddatblygu'r cynllun strategol.

## **6. Ymgynghori ar yr ystod cymwysterau 14-16 oed yn y dyfodol yng Nghymru**

6.1. Ymunodd Emyr George (EG) ac Oliver Stacey (OS) â'r cyfarfod.

6.2. Darparodd EG drosolwg o'r ffordd roedd y prosiect yn cael ei drefnu'n ffrydiau gwaith i baratoi ar gyfer cam nesaf y gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm, yn arwain at yr ail ymgynghoriad yn yr hydref 2020. Pwysleisiodd EG ei fod yn croesawu sylwadau gan y Bwrdd.

6.3. Disgrifiodd EG y ffrydiau gwaith dilynol:

- Egwyddorion dylunio ar gyfer TGAU
- Y cymwysterau a'r pynciau i gael eu cynnwys yn y cynnig
- Llwybrau i sicrhau corff dyfarnu
- Asesu llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
- Bagloriaeth Cymru a Thystysgrif Her Sgiliau
- Continwmm ar gyfer dysgu Cymraeg
- Trefniadau rheoleiddio i gymhwyso ein hegwyddorion

6.4. Darparodd EG drosolwg o bob ffrwd waith ac amlinellodd y penderfyniadau yr oedd eu hangen yn ystod y flwyddyn nesaf. Bu'r Bwrdd yn trafod cyfyngiad, rheoli risg, adnoddau ar gyfer y gwaith a chysylltiadau â gwaith ymchwil.

6.5. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio wrth y Bwrdd fod y cyflwyniad wedi ei ddarparu i'r Pwyllgor ar 10 Hydref, ac un sylw allweddol o drafodaeth y Pwyllgor oedd fod angen dull gwahanol ar gyfer pob un o'r ffrydiau gwaith. Atgyfnerthodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio y ffaith mai'r Bwrdd oedd y prif lwybr cymeradwyo.

- 6.6. Gofynnodd y Bwrdd am eglurhad am ddyfodol mewnbwn y Bwrdd. Dywedodd EG wrth y Bwrdd y byddai cynllun yn cael ei ddatblygu i amlinellu pryd oedd angen mewnbwn y Bwrdd a pha benderfyniadau roedd angen eu gwneud.
- 6.7. Diolchodd y Bwrdd i EG am y cyflwyniad.

**GWEITHREDU 06 – EG i gyflwyno cynllun yn amlinellu mewnbwn y Bwrdd a phenderfyniadau mewn cysylltiad â diwygio'r cwricwlwm.**

**Crynodeb:**

- i. Rhoddodd y Bwrdd sylwadau ar y ffrydiau gwaith wrth baratoi at y cam nesaf yng ngwaith diwygio'r cwricwlwm, yn arwain at yr ail ymgynghoriad yn yr hydref 2020.

**7. Cyfres arholiadau'r gaeaf**

- 7.1. Rhoddodd Jo Richards (JR) ddiweddariad am gyfres arholiadau'r gaeaf 2019-20, a oedd wedi cynnwys dwy sesiwn: Tachwedd 2019 ac Ionawr 2020. Dywedodd JR wrth y Bwrdd fod dyfarniadau TGAU mewn Mathemateg-Rhifedd, Mathemateg, Iaith Saesneg ac Iaith Gymraeg wedi eu rhoi yng nghyfres mis Tachwedd. Byddai un uned TGAU mewn Llenyddiaeth Saesneg a TGAU mewn Llenyddiaeth Gymraeg, ynghyd â rhai unedau Tystysgrif Her Sgiliau, yn cael eu dyfarnu yng nghyfres mis Ionawr.
- 7.2. Dywedodd JR fod cyfres mis Tachwedd yn y broses o gael ei marcio. Drwy'r Grŵp Safonau a Dyfarnu roedd Cymwysterau Cymru wedi gweithio'n agos gyda CBAC i fonitro a rheoli cynnydd, risgiau a phroblemau wrth ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu. Dywedodd JR nad oedd dim problemau o bwys i'r Bwrdd.
- 7.3. Cyfeiriodd JR at y cynllun ymgysylltu yn y papur, a dywedodd wrth y Bwrdd fod llythyr wedi ei anfon at ysgolion a cholegau yn tynnu sylw at wybodaeth bwysig i helpu cefnogi darparu'r gyfres arholiadau'n llwyddiannus. Byddai ail lythyr yn cael ei anfon ar ôl cyhoeddi ceisiadau'n ystadegol.

**Crynodeb:**

- i. Nododd y Bwrdd y diweddariad am gyfres arholiadau'r gaeaf.

**8. Arolwg chwarter dau 2019-20 o'r cynllun gweithredol a'r gyllideb**

**Adroddiad y cynllun gweithredol**

- 8.1. Cyflwynodd Joanne Nicholas (JN) yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa chwarter dau yn erbyn y cynllun gweithredol. Rhoddwyd lliw gwyrdd i dair o'r blaenoriaethau gweithredol a melyn i un flaenoriaeth weithredol (Diwygio). Roedd y dyfarniad melyn oherwydd bod nifer o is-flaenoriaethau mewn Diwygio yn felyn

neu'n goch. Roedd pob un ond pump o'r is-flaenoriaethau'n wyrdd. Roedd y rheiny'n ymwneud â'r dilyn:

- Bagloriaeth Cymru - roedd y gwaith hwn yn dibynnu'n helaeth ar ddiwygio'r cwricwlwm, ac felly roedd penderfyniad wedi'i wneud i ailgynllunio'r cyfnod ymgynghori tan y flwyddyn nesaf fel y gellid ei gydgyssylltu ag ail ran yr ymgynghori ar ddiwygio'r cwricwlwm.
- Arolwg o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu - roedd y nod yn cwmpasu datblygiad cyfredol y meini prawf cymeradwyo Technoleg Ddigidol TGAU a lefel AS/A, ond roedd y penderfyniad wedi'i wneud i ddatblygu'r TGAU yn gyntaf cyn datblygu'r lefel AS/A.
- Arolwg Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant – roedd cynnydd wedi'i wneud ac amserlenni cymeradwyo nawr wedi'u trefnu ar gyfer yr holl gymwysterau a arfaethir. Fodd bynnag, roedd y rhain yn ddiweddarach nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol.
- Cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru - roedd problemau gydag ymarferoldeb ar gyfer lanlwytho gwybodaeth ac ailgynhyrchu pwyntiau perfformiad a'r amser angenrheidiol i ddatrys problemau a gweithredu dulliau cywiro wedi achosi oedi wrth ddarparu gwelliannau .
- Cynllun gweithredu'r laith Gymraeg – roedd angen rhoi'r cynllun gweithredu ar waith gan fod y Cynllun nawr wedi ei gyhoeddi.

8.2. Trafododd y Bwrdd y pum is-flaenoriaeth a gofynnwyd am sicrwydd gan y Corff Gweithredol.

#### Adroddiad ariannol

8.3. Cyflwynwyd yr adroddiad ariannol gan Alison Standfast (AS) gan grynhoi'r sefyllfa chwarter dau. O fewn yr adroddiad cadarnhawyd bod y Pwyllgor Adnoddau wedi arolygu'r sefyllfa fanwl yn ei gyfarfod ar 24 Hydref, ac roedd ARAC wedi arolygu'r broses gyllidebol yn ei gyfarfod ar 1 Tachwedd.

8.4. Atgoffodd AS y Bwrdd fod aelodau'r Bwrdd, ar 16 Mai 2019, wedi cymeradwyo'r gyllideb o £8.392m, a nodwyd ar y pryd y byddai angen adrifiadau cyllidebol pellach wrth i gynlluniau gwariant diwygio'r cwricwlwm gael eu cadarnhau. Cadarnhaodd AS, ar ddiwedd chwarter dau, mai'r ystod ddisgwyliedig ar gyfer y sefyllfa alldro oedd o £8.093k (rhagolwg isel) i £8,574k (rhagolwg uchel). Byddai'r rhagolwg uchel yn gofyn am £190k yn ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru tuag at ariannu diwygio'r cwricwlwm.

Byddai'r rhagolwg isel yn gofyn am ariannu ychwanegol. Nodwyd bod trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru ac y byddai'r rhagolygon yn cael eu gloywi ymhellach dros y mis nesaf.

8.5. Dywedodd AS wrth y Bwrdd, ar ddiwedd Hydref 2019, fod ychydig dros £4 miliwn wedi'i wario; roedd hyn yn llai nag a ragwelwyd oherwydd pythefnos o oedi wrth hawlio grantiau (a oedd nawr wedi eu talu).



- 8.6. Cyfeiriodd AS at y Cynllun Cyllid Cyfnod Canolig, a dywedodd wrth y Bwrdd fod darpariaeth ar gyfer setliad cyflog ychwanegol sy'n daladwy ym mis Ebrill 2020 wedi ei chynnwys yn y gyllideb.
- 8.7. Tynnwyd sylw'r Bwrdd gan AS at y meysydd risg a meysydd gwario llai sicr. Nodwyd bod mwy o sicrwydd am y rhagolwg cyflog, o gofio bod pum Rheolwr Cymwysterau wedi eu penodi.

**Crynodeb:**

- i. Nododd y Bwrdd y sefyllfa chwarter dau yn erbyn y cynllun gweithredol.
- ii. Nododd y Bwrdd yr arolwg o gyllideb chwarter dau gan gynnwys y craffu gan ARAC a'r Pwyllgor Adnoddau.

## 9. Adroddiad ar Hyder y Cyhoedd

- 9.1. Ymunodd Tom Anderson (TA) a Vasile Rotaru (VR) â'r cyfarfod gan gyflwyno canlyniadau o'r gwaith ymchwil i archwilio hyder rhanddeiliaid mewn cymwysterau a'r system gymwysterau. Esboniodd TA fod y darganfyddiadau wedi dod o gyfweiliadau â rhanddeiliaid ac o arolwg o'r cyhoedd.
- 9.2. Dywedwyd bod hyder mewn lefelau AS/A wedi cynyddu yn 2018. Gofynnodd y Bwrdd sut oedd hyn yn cymharu â Lloegr. Dywedwyd ei fod yn debyg.
- 9.3. Cyflwynodd TA a VR y prif ddarganfyddiadau ac amlinellwyd y camau nesaf. Gan mai hon oedd rhan olaf y contract i gynnal cyfweiliadau â rhanddeiliaid, roedd angen penderfynu beth oedd ei angen yn y dyfodol. Trafodwyd dewisiadau prosiect canlyn, parhau'r arolygon presennol, archwilio syniadau eraill, e.e. arolwg athrawon ac ystyried sut mae gweithgareddau ymgysylltu eraill yn darparu gwybodaeth am hyder y cyhoedd.
- 9.4. Nododd y Bwrdd fod cyfathrebu'r gwaith ymchwil yn bwysig. Cydnabuwyd hefyd fod ein gweledigaeth ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yn cyfeirio at gymwysterau sy'n cael eu cydnabod ledled y byd a bod angen ystyried hynny.

**Crynodeb:**

- i. Nododd y Bwrdd yr adroddiad ar hyder y cyhoedd.

## 10. Contractau dros £100k

- 10.1. Ymunodd Liz Frizi (LF) â'r cyfarfod.
- 10.2. Cyflwynodd LF y papur a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd i gychwyn y broses dendro am dri contract yn fwy na £100k.

Cefnogaeth economaidd gan gynnwys dadansoddiad cost a budd.

- 10.3. Amlinellodd LF nad oes gan Cymwysterau Cymru y sgiliau ei hun yn fewnol i wneud dadansoddiad effaith economaidd gan gynnwys dadansoddiad cost a budd. Felly, roedd angen pwrcasu'r gwasanaethau hyn.
- 10.4. Dywedodd LF wrth y Bwrdd bod cais yn cael ei wneud am gymeradwyo dyfarnu contract tair blynedd gyda'r dewis i ymestyn am 12 mis ychwanegol. Trefniant terfynu fyddai hwn heb ddim ymrwymiad i bwrcasu'r gwasanaethau hyn. Rhagwelwyd y byddai'r contract yn cychwyn ar 1 Mawrth 2020.
- 10.5. Trafododd y Bwrdd y gallai gweithgarwch tendro ar gyfer cefnogaeth economaidd, gan gynnwys dadansoddiad cost a budd, ddechrau a chymeradwywyd hynny.

#### Dadansoddi ymateb i'r ymgynghoriad

- 10.6. Dywedodd LF wrth y Bwrdd fod dau gontract wedi eu dyfarnu yn gynharach yn y flwyddyn i ddarparu dadansoddiad ac adroddiad annibynnol mewn cysylltiad â'r ymgynghoriadau ar ddiwygio'r cwricwlwm a'r Amodau Safonol ar Gydabyddiaeth. Byddai ail ymgynghoriad ar ddiwygio'r cwricwlwm flwyddyn nesaf ac o bosibl y Dystysgrif Her Sgiliau. Er mwyn darparu ffordd effeithlon i bwrcasu dadansoddiad ac i roi adroddiad ar ymatebion ymgynghoriadau, argymhellwyd felly y dylid dyfarnu contract terfynu.
- 10.7. Nodwyd y byddai'n cael ei gyhoeddi fel tender agored ar GwerthwchiGymru, ac oherwydd y gost bosibl byddai'n cael ei gyhoeddi yng Nghylchgrawn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.
- 10.8. Trafododd y Bwrdd y gallai gweithgarwch tendro ar gyfer y dadansoddiad o ymateb i ymgynghoriad ddechrau, a chymeradwywyd hynny.

#### Gwerthuso Gweithgaredd Rheoleiddio

- 10.9. Dywedodd LF wrth y Bwrdd am y gwaith a oedd i gael ei gomisiynu i asesu effaith ac effeithiolrwydd gweithgarwch rheoleiddio cyfredol. Nodwyd, er bod hyn yn debygol o fod rhwng £50k a £70k, y gallai fod angen terfynu gwaith cysylltiedig pellach oddi wrth y contractwr yn ystod y flwyddyn ddilynol.
- 10.10. Trafododd y Bwrdd y gweithgarwch tendro ar gyfer gwerthuso gweithgarwch rheoleiddio, a chymeradwywyd hynny

#### **Crynodeb:**

- i. Rhoddodd y Bwrdd ei gymeradwyaeth i gychwyn gweithgarwch tendro ar gyfer cefnogaeth economaidd, gan gynnwys dadansoddiad cost a budd, dadansoddi ymateb i ymgynghoriad, a gwerthuso gweithgarwch gwerthuso.

## 11. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

- 11.1. Cyflwynodd JN Gylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgorau, a dywedodd bod pob Pwyllgor wedi diwygio'i gylch gorchwyl ei hun yn ei gyfarfod diweddaraf. Gofynnwyd am gymeradwyaeth y Bwrdd.
- 11.2. Trafodwyd y Cylch Gorchwyl gan y Bwrdd a nodwyd bod angen mân ail-lunio cylch gorchwyl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Nodwyd hefyd y byddai Caroline Burt yn cymryd swydd Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Yn amodol ar hynny, roedd y Bwrdd yn hapus i gymeradwyo Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.

### GWEITHREDU 07 – JN i ddiwygio Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

#### **Crynodeb:**

- i. Cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl Pwyllgorau gan y Bwrdd, yn amodol ar fân newidiadau yng nghylch y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

## **12. Rheoli Risg**

- 12.1. Cyflwynodd JN y gofrestr risg trefniadaeth a dywedodd bod y gofrestr risg Corfforaethol wedi'i chyflwyno i ARAC ar 1 Tachwedd a'r gofrestr risg rheoleiddio wedi ei dosbarthu, ond heb ei thrafod, yn y Pwyllgor Rheoleiddio ar 10 Hydref.
- 12.2. Gwnaed y sylwadau dilynol gan y Bwrdd:
- Dylid ystyried aralleirio FCS21 ac FCS17.
  - Roedd canolbwyntio ar ddiwygio'r cwricwlwm ac felly roedd angen gallu gweld y gofrestr risg prosiectau.
  - Roedd nifer fawr o risgiau ar y gofrestr a gofynnodd y Bwrdd a oedd angen symleiddio.
  - Dylid ystyried ychwanegu canlyniadau PISA at y gofrestr.
  - Gellid ystyried R14 fel agosrwydd canolig yn hytrach na hir.

#### **Crynodeb:**

- i. Adolygwyd y gofrestr risg trefniadaeth gan y Bwrdd.

## **13. Hyfforddiant Diweddarau'r Bwrdd - Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)**

- 13.1. Ymunodd Helen Murray (HM) â'r cyfarfod a darparodd ddiweddariad o GDPR a'r trefniadau o fewn Cymwysterau Cymru. Dywedodd HM wrth y Bwrdd fod archwiliad mewnol yn ddiweddar wedi rhoi sicrwydd sylweddol, ac roedd argymhelliad wedi'i wneud i ddarparu hyfforddiant diweddarau i'r Bwrdd.
- 13.2. Cyflwynwyd y dilynol i'r Bwrdd gan HM:
- Trosolwg o gyfraith diogelu data ac egwyddorion GDPR.

- Y math o ddata personol a gedwir gan Cymwysterau Cymru
- Y prosesau sy'n barod gan Cymwysterau Cymru i gydymffurfio â GDPR
- Yr argymhellion gan yr archwiliad mewnol

13.3. Diolchodd y Bwrdd i HM am ei chyflwyniad cynhwysfawr.

**Crynodeb:**

- ii. Cafodd y Bwrdd ddiweddariad o ddeddfwriaeth GDPR a'r trefniadau o fewn Cymwysterau Cymru.

## 14. Adroddiad y Pwyllgor Rheoleiddio

- 14.1. Rhoddodd Cadeirydd y Bwrdd ddiweddariad o'r prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 10 Hydref. Roedd cofnodion cyfarfod 27 Mehefin wedi eu cynnwys gyda phecyn y Bwrdd er gwybodaeth.
- 14.2. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn y Pwyllgor ar 10 Hydref yn ymwneud â phrosiect diwygio'r cwricwlwm. Ymhlith yr eitemau eraill roedd cyfres arholiadau'r haf, a gwaith yn deillio ohoni, yn ogystal â diweddariadau ar lafar o'r Arolwg o Amodau Safonol Cydnabod, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Polisi Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog, a'r Arolwg Annibynnol JCQ o Gamymddwyn.

## 15. Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau

- 15.1. Rhoddodd Cadeirydd y Bwrdd ddiweddariad o'r prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 24 Hydref. Roedd cofnodion cyfarfod 10 Gorffennaf wedi eu cynnwys gyda phecyn y Bwrdd er gwybodaeth.
- 15.2. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn y Pwyllgor ar 24 Hydref yn ymwneud â'r cynllun gweithredol chwarter dau a'r sefyllfa ariannol. Roedd papur ar effeithlonrwydd wedi ei gyflwyno yn ogystal â chynlluniau ar gyfer datblygu cynllun gweithredol y flwyddyn nesaf. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor fod y canolbwyntio mewn cyfarfodydd yn ddiweddar wedi symud o gyllid i gyfyngiadau capasiti.

## 16. Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

- 16.1. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor ddiweddariad o'r prif faes busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 17 Medi. Roedd cofnodion cyfarfod 22 Tachwedd 2018 wedi eu cynnwys gyda phecyn y Bwrdd er gwybodaeth.
- 16.2. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn y Pwyllgor ar 17 Medi yn ymwneud â'r dyfarniad cyflog, y cylch gorchwyl a'r canllaw ar gyfer treuliau aelodau'r Bwrdd. Roedd cynllun olyniaeth y Prif Weithredwr hefyd wedi ei drafod.

## 17. Y Pwyllgor Archwilio a Risg a Sicrwydd (ARAC)

- 17.1. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor ddiweddariad o'r prif faes busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 1 Tachwedd. Roedd cofnodion cyfarfod 18 Gorffennaf 2019 wedi eu cynnwys gyda phe cyn y Bwrdd er gwybodaeth.
- 17.2. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn y Pwyllgor ar 1 Tachwedd yn ymwneud â chydaddoldeb, bwlch cyflog y ddau ryw, y prosiect alinio'r gyllideb ac archwiliad mewnol. Derbyniwyd dau adroddiad archwilio. Roedd yr archwiliadau GDPR wedi rhoi sicrwydd sylweddol a'r archwiliad Cyfathrebu wedi cael rhoi cyfyngedig. Byddai'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Strategol yn mynd i gyfarfod ARAC ym mis Chwefror 2020 i ddarparu diweddariad. Roedd ymchwiliad manwl wedi ei gynnal hefyd o iechyd a diogelwch a roddodd sicrwydd i'r Pwyllgor, ac roedd sleidiau ar gael i holl aelodau'r Bwrdd ar y safle SharePoint.
- 17.3. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am fwy o fanylion am fwlch cyflog y ddau ryw a chipolwg ar ddsbarthiad y ddau ryw o fewn y sefydliad. O gofio cyfran uchel y merched yn y band is, awgrymwyd y gellid adolygu'r disgrifiadau swydd a'r teitlau.

**GWEITHREDU 08– AS i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Bwrdd am fwlch cyflog y ddau ryw.**

## **18. Unrhyw fater arall**

- 18.1. Nododd aelodau'r Bwrdd fod y sefydliad yn trefnu fforwm Cyrff Dyfarnu ar 10 Rhagfyr. Nid oedd dim materion eraill.
- 18.2. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am eu cyfraniad i'r cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 16.00